# Perfformiad.Gorau @Abertawe

## Crynodeb y Cynllun Gwella ar gyfer 2005-2006






Gorffennaf 2005

CITY AND COUNTY OF SWANSEA • DINAS A SIR ABERTAWE

# *Rhagair*

Croeso i'r Crynodeb o Gynllun Gwella Dinas a Sir Abertawe. Mae'n adrodd ar gynnydd a pherfformiad y Cyngor drwy gydol y flwyddyn a hefyd yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cyflawni a chynnal gwelliant pellach.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad cydlynol dan faner **Perfformiad.Gorau@Abertawe.** Mae'n cynnwys lefelau gwasanaethau a chorfforaethol ac mae'n berthnasol i'r sefydliad cyfan. Mae ymrwymiad i gyflawni'r perfformiad gorau a dod yn un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yn y DU yn parhau'n un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Crynhoir hyn yn Nodau trosgynnol y Cyngor sef:

- **Darparu gwasanaethau sydd o fewn chwartel uchaf Awdurdodau Unedol tebyg yn DU**

- **Cyflawni gwelliant sylweddol ym modlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid**

- **Gweithredu fel un sefydliad**

- **Arwain y gymuned drwy fod yn hygyrch ac yn atebol gan ymwneud yn agored ac yn onest gyda phobl, grwpiau a sefydliadau lleol**

Mae'n bleser gennym adrodd fod canlyniadau perfformiad y Cyngor ar gyfer 2004/05 yn parhau i ddangos tuedd gadarnhaol tuag at ein nod o fod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio orau. Mae tua chwe deg y cant o'r dangosyddion perfformiad yn dangos gwelliant o'r flwyddyn flaenorol neu ar lefel 'Perfformiad Gorau' ac mae mwy na hanner ohonynt yn dangos ein bod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr.

Mae Abertawe ar fin cychwyn ar raglen o newid uchelgeisiol iawn dan yr enw y **Rhaglen eLywodraeth.** Mae'r cynllun hwn yn rhan bwysig o nodau trosgynnol y Cyngor gan y bydd nid yn unig yn trawsnewid gallu cwsmeriaid i hygyrchu gwasanaethau ond hefyd yn esgor ar welliannau enfawr o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Yn sicr bydd yn gosod Abertawe ymhlith awdurdodau blaenaf y DU.

Er mai ym mis Gorffennaf 2004 yn unig y cytunwyd ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, fe'u hadolygir a'u profir yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau:
- yn ddilys
- yn mynd i'r afael â'r peryglon allweddol i'r Cyngor
- yn bodloni anghenion defnyddwyr a chwsmeriaid
- yn fforddiadwy.

Datblygwyd ac adroddir ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer gweithredu a chynnydd gan ddefnyddio strwythur y tair blaenoriaeth gorfforaethol ar hugain.

**Chris Holley/Arweinydd** **Tim Thorogood/Prif Weithredwr**

# Perfformiad 2004/2005 - Crynodeb

Rydym yn dadansoddi ein perfformiad yn ôl tueddiadau h.y. a yw'r perfformiad wedi gwella o'r hyn ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol, a chyflwynir y crynodeb hwn isod. Yn ogystal, rydym yn cymharu ein perfformiad ag eiddo'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn y DU; amlinellir crynodeb o'r gymhariaeth hon ar wahân ar ôl yr adran hon.

## Gwella Perfformiad

Mae'r tabl isod yn cymharu tueddiadau cyffredinol y dangosyddion perfformiad ar gyfer y llynedd a'r flwyddyn flaenorol.

| YN GWELLA | PERFFORMIAD GORAU EISOES | YN AROS YR UN PETH | YN DIRYWIO | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **Y LLYNEDD (2004/05)** | | | | |
| 87 | 30 | 17 | 62 | 196 |
| 44% | 15% | 9% | 32% | 100% |
| **Y FLWYDDYN FLAENOROL (2003/04)** | | | | |
| 97 | 8 | 27 | 43 | 175 |
| 55% | 5% | 15% | 25% | 100% |

At ei gilydd, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae 59% o'r dangosyddion perfformiad yn gwella neu eisoes ar lefel perfformiad gorau.
- Mae 32% o'r dangosyddion perfformiad yn dangos perfformiad sy'n dirywio.

Yn yr adrannau canlynol, cyflwynir yr un tueddiadau perfformiad ar gyfer y prif feysydd perfformiad a rhoddir enghreifftiau o berfformiad sy'n gwella neu'n dirywio.

Yn yr enghreifftiau canlynol:

■ yw perfformiad sy'n gwella

◆ yw perfformiad sy'n dirywio

## Iechyd Corfforaethol

O blith cyfanswm o 31 dangosydd yn y categori hwn, mae 12 wedi gwella, mae 2 ar lefel perfformiad gorau, mae 6 wedi aros yr un peth ac mae 11 wedi dangos perfformiad sy'n dirywio.

Enghreifftiau:

■ Mae canran yr anfonebau diddadl a dalwyd o fewn 30 diwrnod wedi dangos gwelliant cyson o 56.3% yn 2002/03 i 60.8% yn 2003/04 ac yna 78% yn 2004/05. Cyflawnwyd hyn drwy gychwyn cynllun gweithredu i wella perfformiad a monitro data bob mis.

■ Mae ymddeoliadau oherwydd salwch fel canran o’r gweithlu cyfan wedi parhau i wella, gyda’r ganran yn disgyn i 0.31% yn 2004/05. Mae hyn yn bennaf oherwydd symleiddio gweithdrefnau gweinyddol a chydgysylltu cyson â meddygon iechyd galwedigaethol.

■ Roedd canran y swyddi uwch reolwyr a lanwyd gan fenywod yn dangos dirywiad o 2001/02 tan 2003/04. Gwrthdrowyd y dirywiad hwn yn 2004/05 a’r ganran (bellach ar 19.4%) yw’r uchaf ers pedair blynedd.

◆ Mae nifer y staff o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng ngweithlu’r cyngor fel canran o’r gweithlu cyfan wedi gostwng o 1.28% yn 2003/04 i 1.18% yn 2004/05. Serch hynny, mewn ymgais i gynyddu niferoedd y staff o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a gyflogir yn y gweithlu, bwriedir cynnal Ffair Swyddi i Leiafrifoedd Ethnig a dechrau hysbysebu bwletinau swyddi mewn fformat ethnig ehangach.

◆ Mae nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd salwch yn achos pryder o hyd er bod gwelliant bach o 12.6 diwrnod yn 2003/04 i 11.6 diwrnod yn 2004/05. Nodwyd problemau o ran cofnodi absenoldebau salwch a bellach mae’r rhain wedi’u datrys. Mae ffigurau absenoldeb salwch yn cael eu monitro’n fisol bellach er mwyn darganfod y rhesymau wrth wraidd hynny a gweithredu yn sgîl hynny.

## *Addysg*

Mae 51% o’r dangosyddion (22 o’r 43) yn dangos gwelliant gydag 1 yn aros yr un peth, 7 eisoes ar lefel perfformiad gorau, a 13 dangosydd yn dirywio.

Enghreifftiau:

■ Mae canran y dosbarthiadau ysgolion cynradd lle mae mwy na 30 disgybl wedi gostwng eto i 1.59% (Derbyn i Fl. 2) a 0.49% (Bl. tri i Fl. chwech) gan ddangos tuedd gwelliant o’r flwyddyn flaenorol o 1.6% a 3.7% yn ei dro.

■ Mae canran y disgyblion 14 oed sy’n cyrraedd lefel 5 neu’n uwch ym mhrofion Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi cynyddu ar ffigurau’r flwyddyn flaenorol.

■ Cafwyd gwelliant hefyd yng nghanran y disgyblion sy’n ennill 5 TGAU neu fwy ar raddau A*-C neu’r cyfwerth galwedigaethol, o 48.3% i 49.6%.

◆ Mae nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd wedi codi i 13.10%. Mae’r broblem wedi’i chydnabod a pharatowyd Cynllun Trefniadaeth Ysgolion a fydd yn cael ei weithredu i sicrhau bod argaeledd lleoedd mewn ysgolion yn adlewyrchu’r galw yn well o ran niferoedd a lleoliad daearyddol.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

O'r cyfanswm o 22 dangosydd, mae 12 yn dangos gwelliant, mae 4 ar lefel perfformiad gorau ac mae'r 6 sy'n weddill wedi dirywio.

Enghreifftiau:

- ■ Mae cyfradd gohirio trosglwyddo gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd wedi gwella o 16.35 i 11.02.
- ■ Mae canran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd wedi bod arni am 2 flynedd neu fwy wedi gwella o 6.7% i 4.4%
- ■ Cafwyd gwelliant sylweddol (o 66.2% i 80.7%) yng nghanran yr eitemau o gyfarpar a gostiodd lai na £1,000 a ddosbarthwyd o fewn 3 wythnos.
- ◆ 26.98% yn unig o'r asesiadau cychwynnol o blant mewn angen a gyflawnwyd o fewn 7 diwrnod gwaith i'w cyfeirio yn erbyn targed o 50%. Mae hyn oherwydd effaith sylweddol anawsterau staffio rheng flaen ar waith asesu. Bydd adolygiad yn digwydd i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn.

## Tai

Mae 7 o 16 dangosydd yn dangos perfformiad gwell, gyda 3 ar lefel perfformiad gorau a 6 yn dirywio.

Enghreifftiau:

- ■ Mae amserau ailosod cyfartalog mewn diwrnodau ar gyfer tai'r awdurdod lleol a osodwyd ar rent yn y flwyddyn ariannol wedi gwella o 143.5 diwrnod yn 2003/04 i 121.09 diwrnod yn 2004/05.
- ■ Mae'r rhent cyfartalog y tenant a gollwyd oherwydd gadael tai'n wag yn ystod y flwyddyn ariannol wedi gostwng o £107.96 i £84.84.
- ■ Mae'r amser cyfartalog mewn diwrnodau a gymerwyd i gwblhau tasgau atgyweirio ymatebol arferol wedi gostwng o 27.2 diwrnod yn 2003/04 i 26.06 diwrnod yn 2004/05.
- ◆ Mae cyfartaledd dyledion rhent tenantiaid presennol fel cyfran restr renti'r awdurdod wedi cynyddu o 0.0319 i 0.0379. Effeithiwyd ar berfformiad eleni gan weithredu diwydiannol a sefydlu arferion gwaith newydd.
- ◆ Mae cyfartaledd y ceisiadau digartrefedd, lle mae'r awdurdod yn dod i benderfyniad ac yn cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd o fewn 33 diwrnod gwaith, wedi dirywio o 0.972 i 0.955. Mae hyn oherwydd bod y llwyth achosion yn cynyddu ond nid yw'r adnoddau i'w trin yn gwneud hynny yn yr un modd. Cwblhawyd proses aildrefnu'n ddiweddar o fewn Opsiynau Tai a bydd hynny ynghyd â swydd Gweithiwr Achosion newydd yn mynd i'r afael â'r problemau.

## Gwasanaethau Amgylcheddol

Mae cyfanswm o 56 dangosydd ar gyfer y Gwasanaethau Amgylcheddol. Mae naw ar lefel perfformiad gorau, mae 17 dangosydd yn dangos gwelliant, mae 10 yn dal ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol ac mae 20 dangosydd yn dirywio (fodd bynnag, mae tua 50% o'r rhain naill ai'n is na'r perfformiad blaenorol o drwch blewyn neu o fewn trwch blewyn i'r targed).

Enghreifftiau:

- Mae canran cyfanswm hyd y llwybrau troed a'r hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i'r cyhoedd eu defnyddio wedi gwella o 44% yn 2003/04 i 50.7% yn 2004/05.
- Mae canran y goleuadau stryd nad ydynt yn gweithio wedi gwella'n sylweddol o 1.55% i 0.79%
- Mae canran archwiliadau adeiladau bwyd y dylesid eu cyflawni o ran adeiladau risg uchel ac eraill yn aros ar 100% sef "Perfformiad Gorau"
- Yn yr un modd, mae trwsio'r difrod i ffyrdd a phalmentydd o fewn 24 awr yn aros ar 100%
- ◆ Mae canran cyfanswm y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt o fewn 8 wythnos wedi dirywio o 65.8% yn 2003/04 i 41.19% yn 2004/05. Mae hyn oherwydd y cynnydd parhaus yn nifer y ceisiadau ynghyd â'r ceisiadau sy'n aros am benderfyniad. Bellach mae Cynllun Adfer wedi'i sefydlu a darparwyd mwy o staff i wella perfformiad.

## Gwasanaethau Diwylliannol a Thwristiaeth

Mae 15 o'r 21 dangosydd yn dangos perfformiad gwell, mae 2 ar lefel perfformiad gorau a 4 dangosydd yn unig sy'n dirywio.

Enghreifftiau:

- Mae nifer y disgyblion sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau mewn grwpiau wedi gwella eto a'r niferoedd cyfredol yw 38,634. Mae nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1,000 o'r boblogaeth hefyd wedi codi o 4,164 yn 2003/04 i 4,511 yn 2004/05
- Mae Bodlonrwydd Cwsmeriaid o ran Gwasanaethau'r Parciau wedi gwella o 83% yn 2003/04 i 84% yn 2004/05. Cafwyd gwelliant hefyd ym modlonrwydd cwsmeriaid o ran y Gwasanaethau Llyfrgell o 98.2% i 99.19%
- ◆ Mae nifer y nofiadau ac ymweliadau eraill â phyllau nofio a chanolfannau chwaraeon fesul 1,000 o'r boblogaeth bellach yn 5,133 o'i gymharu ag 8,119 yn 2002/03. Mae hyn o ganlyniad i gau Canolfan Hamdden Abertawe. Penderfynwyd ailagor y ganolfan felly bydd y niferoedd yn gwella yn y tymor hir.

## Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth y Cyngor

Mae 5 o'r 7 dangosydd yn dangos bod perfformiad yn gwella neu ar lefel perfformiad gorau gyda 2 yn dangos dirywiad

Enghraifft:

- Mae'r amser ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd wedi gwella eto o 45.2 diwrnod yn 2003/04 i 29.4 diwrnod yn 2004/05. Mae'r amser ar gyfer prosesu newidiadau mewn amgylchiadau hefyd wedi gwella o 8.6 diwrnod i 5.9 diwrnod yn unig.
- ◆ Mae nifer yr erlyniadau a'r cosbau fesul 1,000 o lwyth achosion wedi gostwng o 5.65 yn 2003/04 i 3.17 yn 2004/05. Mae hyn o ganlyniad i oedi cyn medru dwyn achosion i'r llys gan ostwng nifer yr euogfarnau. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus ar hyn o bryd a bydd gwell cysylltiad rhwng yr adrannau perthnasol yn esgor ar welliannau.

## *Troseddu*

- Mae nifer y byrgleriaethau domestig wedi gostwng o 1,491 yn 2003/04 i 1,339 yn 2004/05.
- Yn yr un modd, mae nifer y troseddau sy'n ymwneud â cherbydau wedi gostwng yn sylweddol o 6,558 i 4,481.

## *Perfformiad Abertawe o'i gymharu ag Awdurdodau Unedol eraill Cymru a Lloegr*


Er bod perfformiad yn gwella neu ar lefel perfformiad gorau o ran 59% o'r dangosyddion fel a ddisgrifiwyd eisoes, nid yw'r dadansoddiad cymhariaeth amlinellol hwn yn dangos cynnydd o ran gwelliant yn ein perfformiad o'i gymharu ag eraill.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib cynhyrchu cymhariaeth ag awdurdodau eraill o ran canlyniadau perfformiad Abertawe y llynedd am nad yw eu ffigurau hwy ar gael eto. Fodd bynnag, gellir cael awgrym o ddefnyddio eu canlyniadau o'r flwyddyn cyn y llynedd, er dylid trin y gymhariaeth hon yn ochelgar. Dangosir cymhariaeth â dadansoddiad tebyg a wnaed y flwyddyn flaenorol hefyd er nad yw cymhariaeth uniongyrchol yn bosib gan fod y grŵp dangosyddion y flwyddyn flaenorol ychydig yn wahanol.

| Chwartel uchaf (4 seren) | Yn well na'r canolrif (3 seren) | Yn waeth na'r canolrif (2 seren) | Chwartel Isaf (1 seren) | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| 24 | 32 | 18 | 34 | 108 |
| 22% | 30% | 17% | 31% | 100% |
| **Y flwyddyn flaenorol (2003/4)** | | | | |
| 28% | 15% | 23% | 34% | 100% |

- Er bod nifer y dangosyddion sy'n dangos perfformiad yn y chwartel uchaf wedi gostwng ychydig i 22%, mae'r nifer yn y trydydd chwartel wedi dyblu i 30%.
- Mae'r duedd gyffredinol ar i fyny, gyda 52% yn well na'r canolrif eleni o'i gymharu â 43% yn unig y llynedd.
- Mae'r nifer yn y chwartel isaf wedi gwella hefyd o 34% i 31%.

Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad cymharu perfformiad wedi'i rannu yn ôl maes gwasanaeth.




Mae Abertawe'n rhagori ar Gynghorau eraill yn y meysydd canlynol:

- Lefel 4 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 2
- Maint dosbarthiadau cynradd i blant tair i chwech oed
- Helpu pobl hŷn i fyw gartref ac asesu eu hanghenion
- Cwblhau atgyweiriadau brys i dai Cyngor yn gyflym
- Swm y gwastraff a ailgylchir a'r ganran a anfonir i safleoedd tirlenwi
- Canran y boblogaeth sy'n derbyn casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd
- Archwilio adeiladau bwyd yn ôl risg uchel ac adeiladau eraill
- Ymweliadau ysgolion ag amgueddfeydd ac orielau
- Cyflymder prosesu hawliadau Budd-dâl Tai o ran hawliadau newydd a newid amgylchiadau

Mae'r meysydd y mae angen i Abertawe ganolbwyntio arnynt i wella perfformiad o'i gymharu ag awdurdodau eraill yn cynnwys:

- Talu anfonebau o fewn 30 diwrnod
- Plant 15-16 oed sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau cydnabyddedig
- Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd
- Yr oedi cyn ail osod tai Cyngor
- Swm ôl-ddyledion rhent tenantiaid presennol a chyn denantiaid
- Ymweliadau â phyllau nofio
- Gwella'r diwrnodau/shifftiau a gollir oherwydd salwch
- Cynllun/llwybr gofal ar gyfer gofal parhaus wedi'i drefnu i bobl ifanc
- Canran cyfanswm y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos
- Canran y gordaliadau y gellir eu hadennill (ac eithrio Budd-dâl Treth y Cyngor) a adenillir yn ystod y flwyddyn.

Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar berfformiad gwael a gwella perfformiad drwy arfarniadau ac adolygiadau unigol a monitro perfformiad a chylchoedd adrodd gan gynnwys cyfarfodydd ariannol a monitro perfformiad misol ac adroddiadau monitro chwarterol a blynyddol.

# Blaenoriaethau Corfforaethol

Mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad o'i Flaenoriaethau Corfforaethol sydd wedi cynnwys ystyriaeth o'r blaenoriaethau Gwleidyddol, yr Agenda Genedlaethol, materion Cyllideb, Risg a Pherfformiad. Rhoddwyd canlyniadau'r ymarfer hwn ar brawf gan Baneli Adolygu a oedd yn cynnwys aelodau o banel ymgynghori Lleisiau Abertawe. Yn fras, maent wedi cadarnhau bod y gyfres bresennol o Flaenoriaethau Corfforaethol a ddiwygiwyd ym mis Mehefin 2004 yn parhau i fodloni anghenion trigolion Abertawe a chwsmeriaid eraill.

Datblygwyd cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gweithredu a chynnydd drwy ddefnyddio strwythur y tair blaenoriaeth ar hugain gorfforaethol.

## Blaenoriaeth Gorfforaethol A – Plant a Phobl Ifanc

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc.*

### Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Gorffen adnewyddu Canolfannau Gweithgareddau Tŷ'r Borfa a Rhosili.
- Hwyluso a chyflwyno gweithgareddau y Tu Allan i Oriau Ysgol i 6880 o bobl ifanc o rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe.
- Dechrau ar brosiect £1m i adeiladu Canolfan Blant Abertawe yn Ysgol Gynradd Clwyd.
- O dan ymbarél y Bartneriaeth Plant, lansiwyd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant sy'n cynnig gwybodaeth ddiduedd o ansawdd ar gyfleusterau magu plant a grwpiau plant bach cofrestredig lleol.
- Gweinyddu Cronfa Ddatblygu Cymorth sydd i helpu i greu cynlluniau newydd a blaengar i bobl ifanc neu i ehangu'r gwaith y mae sefydliadau yn ei wneud eisoes.
- Annog mwy na 230,000 o bobl ifanc i ddefnyddio canolfannau hamddena cymunedol.
- Cyflwynwyd a chefnogwyd mynediad pobl ifanc i'r canlynol:
  - Cynllun Gwobr Dug Caeredin - 778 person ifanc wedi cofrestru
  - Gweithwyr ieuenctid ar wahân wedi gweithio gyda phobl ifanc mewn cymunedau nad ydynt mewn cyswllt â darpariaeth ieuenctid - 5341 cyswllt â phobl ifanc.
  - Rhaglenni Hyfforddi Uwch Aelodau ar gyfer pobl ifanc 16 - 19 oed i ddatblygu sgiliau arwain, gwaith tîm a dinasyddiaeth.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Nodi'n brydlon y plant mwyaf anghenus a hawdd eu niweidio yn y gymuned a darparu cefnogaeth addas iddynt sy'n hybu eu lles.
- Gweithredu a monitro polisïau'r AALl o ran Cynhwysiad Addysg ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i blant oed ysgol a phobl ifanc. Datblygu strategaeth AAA.
- Gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion i gynyddu cyfranogaeth mewn cyfleoedd dysgu a hyfforddi, drwy Hyfforddiant Cyflogaeth.
- Cynyddu % y rhai sy'n gadael hyfforddiant cyflogaeth â chymhwyster.
- Gwella cyswllt lleol â phlant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach i wella ansawdd bywyd.
- Gwella mynediad i wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chefnogi ieuenctid.
- Hybu Cynllun Gwobr Dug Caeredin yn y Llwybr Dysgu 14-19.
- Datblygu'r Pentref Ieuenctid yn Sioe Abertawe drwy weithio mewn partneriaeth.
- Cyfrannu at y Weledigaeth o Abertawe fel 'Dinas Ewropeaidd Unigryw' drwy gyfranogi'n ymarferol yn y Rhaglen Ieuenctid Ewropeaidd.

## Sut byddwn ni'n mesur cynnydd:

- Datblygu Strategaeth Anghenion Addysgol Arbennig erbyn 2006.
- Cynyddu'r ganran sy'n gadael yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig o ryw fath yn 16 oed i 96.9% erbyn 2007/08.
- Anelu at gyrraedd cynnydd canrannol o bobl sy'n gadael hyfforddiant cyflogaeth â chanlyniadau cadarnhaol i 75% erbyn 2007/08.
- Nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio canolfannau hamddena cymunedol yn cynyddu erbyn 2007/08.
- Darparu mannau mynediad i wybodaeth mewn cymunedau a datblygu, gyda phartneriaid, 47 Ffordd y Brenin fel canolfan cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc erbyn Mawrth 2006.
- Sicrhau bod cyfranogaeth pobl ifanc yn cael ei chydnabod yn ffurfiol drwy gredydau'r Rhwydwaith Coleg Agored; Cynllun Gwobr Dug Caeredin a Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid ac ymchwilio i ffyrdd o gydnabod amser gwirfoddol.
- Gwella cofnodi cynnydd pobl ifanc drwy ddatblygiad personol a chymdeithasol gan ddefnyddio'r Matrics Ffactorau Risg ac Amddiffyn.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol B - Iaith a Diwylliant Cymru

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Hybu Iaith a Diwylliant Cymru yn Abertawe.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Arwain astudiaeth ddwy flynedd i lyfrau plant yn y Gymraeg y bydd ei chanlyniadau yn galluogi awduron yn y dyfodol i dargedu eu gwaith at y grŵp oedran arfaethedig. Y canlyniad oedd Corpws o Lenyddiaeth Gymraeg i Blant a elwir "Ein Geiriau NI". Y nod yw sicrhau y bydd hyn yn arwain at gyhoeddi mwy o lyfrau Cymraeg i blant.
- Dechrau adolygu Cynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod a'r Cynllun Addysg Gymraeg.
- Trefnu bod Eisteddfod Genedlaethol eleni'n cael ei sgrinio'n fyw yn Sgwâr y Castell ar sgrîn enfawr er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod yn gyffredinol.
- Dechrau gweithio gyda threfnwyr yr Eisteddfod i sicrhau Eisteddfod 2006 lwyddiannus yn Abertawe.
- Cyflwyno rhaglen 'Cyflwyniad i Waith Ieuenctid' (Achrediad RhCA) drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Agor Amgueddfa Genedlaethol newydd y Glannau.
- Ehangu a gwella safon yr addysg Gymraeg sydd ar gael, drwy gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion Cymraeg.
- Gweithio gyda gwasanaethau a phartneriaid eraill a chyfrannu mewnbwn i Eisteddfod 2006.
- Cwblhau adolygiadau a chynhyrchu Cynllun Cyfle Cyfartal a'r Iaith Gymraeg i'w fabwysiadu gan y Cyngor.
- Parhau i ddatblygu gwasanaeth Llyfrgelloedd cynhwysfawr i gydymffurfio â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.
- Llunio Fforwm Iaith a Diwylliant Cymru.
- Cynyddu hygyrchedd dwyieithog gwasanaethau'r cyngor (Rhyngrwyd, ffôn, ysgrifenedig a phersonol) drwy gynllun Gwasanaeth@Abertawe.
- Datblygu mwy o weithgareddau haf PIC i'w cyflwyno'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant cysylltiedig â gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Nifer y lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn cynyddu i 3807 erbyn 2007/08.
- Cwblhau adolygu a chynhyrchu'r Cynllun Iaith Gymraeg erbyn Rhagfyr 2005.
- Cyflawni WPLS 5 (oriau agor llyfrgelloedd – sy'n gwasanaethu 5,000+) erbyn 2008.
- Cynnydd o 50% yn nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer rhaglenni Cymraeg.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol C* – Ardaloedd Siopa

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gwella "golwg a naws" canol ein Dinas ac ardaloedd siopa lleol*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Cwblhau Cam 1 datblygiad Salubrious Place yn Stryd y Gwynt.
- Dechrau'r gwaith o wella pen isaf Ffordd y Dywysoges a'r strydoedd cyfagos i greu coridor o safon i gysylltu Sgwâr y Castell ac Amgueddfa newydd y Glannau.
- Dechrau'r gwaith ar ddatblygiad Glannau SA1 gan gynnwys swyddfeydd newydd, tai a llunio mynedfa newydd.
- Buddsoddi £75,000 i wella llwybrau a goleuo'r ardaloedd o gwmpas Neuadd y Ddinas er mwyn gwella'r ardal i ymwelwyr a thrigolion.
- Troi £4 miliwn o Gronfa Adfywio Ddur yn fuddsoddiad £12 miliwn yn ardal Gorseinon

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Gwella treftadaeth adeiladau Abertawe i greu amgylcheddau byw o safon uchel sy'n parchu gorffennol diwydiannol a morol cyfoethog Abertawe.
- Paratoi a gweithredu fframwaith adfywio strategol ar gyfer Canol y Ddinas.
- Cynhyrchu a monitro gweithrediad Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas 2005-2006 drwy Bartneriaeth Canol y Ddinas.
- Dechrau Cam 2 datblygiad Salubrious Place
- Ailddatblygu adeilad David Evans gynt i ddarparu unedau adwerthu cyfoes ychwanegol.
- Cwblhau ac agor Amgueddfa Genedlaethol newydd y Glannau.
- Gwelliannau amgylcheddol a gweithrediadol i Farchnad Abertawe.
- Estyn yr ardal rheoli yfed alcohol ar y stryd yng nghanol y ddinas.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Cynhyrchu cofrestr adeiladau mewn perygl erbyn mis Rhagfyr 2006.
- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas 2005/06 a monitro ei roi ar waith bob chwarter.
- Cynyddu canran y trigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n "weddol ddiogel" neu'n "ddiogel iawn" wedi iddi dywyllu.
- Cwblhau Cam 2 datblygiad Salubrious Place erbyn diwedd 2006.
- Cwblhau ailddatblygu adeilad siop David Evans gynt erbyn 2007.
- Agor Amgueddfa newydd y Glannau erbyn diwedd 2005 a chwblhau'r coridor rhwng Sgwâr y Castell ac Amgueddfa'r Glannau erbyn diwedd 2005.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ch* – Ymwybyddiaeth Amgylcheddol a Chynaladwyedd

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Sicrhau bod ein holl bolisïau a'n gweithredu yn sensitif i'r amgylchedd ac yn darparu dyfodol cynaliadwy i'n Dinas.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Mabwysiadu Blaenoriaeth Gorfforaethol newydd i gadarnhau ymrwymiad y Cyngor i ddatblygiad cynaliadwy a chwblhau arfarniad cynaladwyedd o'r Cynllun Cymunedol.
- Cychwyn Rhaglen Abertawe Gynaliadwy gyda Fforwm Amgylcheddol Abertawe.
- Sicrhau tariff ynni gwyrdd ar gyfer Neuadd y Ddinas a holl oleuadau stryd Abertawe.
- Gweithio mewn partneriaeth â Chynllun Masnach Deg Abertawe i ennill statws Dinas Masnach Deg yn 2004.
- Amlinellu cynigion strategol ar gyfer cadwraeth natur yn Abertawe drwy gyfres o gyflwyniadau fel rhan o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yr Awdurdod.
- Cyflwyno gwasanaeth Claddedigaeth Goetir ym Mynwent Ystumllwynarth sy'n cyfrannu at gynefin coetir a fydd yn hybu ardal goetir hardd ac yn ei diogelu.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Integreiddio egwyddorion datblygiad cynaliadwy i bolisïau, strategaethau, cynlluniau a phrosiectau.
- Paratoi a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol drosgynnol i Abertawe, gyda'r nod o ddiogelu a gwella pob agwedd ar amgylchedd Abertawe.
- Datblygu ymwybyddiaeth o faterion datblygiad amgylcheddol a chynaliadwy byd-eang a lleol drwy addysg a hyfforddiant.
- Gwella effeithlonrwydd drwy gynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy a hybu'r defnydd o opsiynau cludiant mwy cynaliadwy, a thrwy hynny leihau cyfraniad Abertawe i newid hinsawdd.
- Parhau i gefnogi prosiectau cadwraeth a ysgogir gan bobl ifanc megis yr un sy'n cael ei ddatblygu ar safle Ysgol Gynradd Craigfelen.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Paratoi Strategaeth Amgylcheddol Abertawe erbyn 2006.
- Datblygu a mabwysiadu offeryn arfarnu cynaladwyedd i'r Cyngor erbyn 2005.
- Cwblhau asesiad amgylcheddol strategol o'r Cynllun Datblygu Unedol erbyn 2005.
- Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth erbyn 2006.
- Achredu gwaith pobl ifanc, mesur eu cynnydd personol a chymdeithasol a chynnal digwyddiad cyhoeddus i lansio pob prosiect.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol D* – Llywodraeth Agored ac Onest

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Rheoli ein busnes yn agored ac onest, cryfhau atebolrwydd democrataidd a gwella'n hymwneud â'r cyhoedd.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Mewn partneriaeth â Grŵp Dinasyddion Abertawe, trefnu digwyddiad Hawl i Holi "Y-Vote?" yn siambr y Cyngor lle cafodd cynulleidfa o bleidleiswyr ifanc 16-24 oed gyfle i holi cynrychiolwyr holl brif bleidiau gwleidyddol Cymru.
- Ymateb i farn gyhoeddus ac ymrwymo i adnewyddu ac ailagor Canolfan Hamdden Abertawe fel cyfleuster canolog ar gyfer y 25 mlynedd nesaf.
- Trefnu ymgynghoriad cyhoeddus eang ar ddyfodol "Pont Slip" y ddinas.
- Cynnal cyfarfodydd y Cyngor mewn lleoliadau heblaw Neuadd y Sir er mwyn annog mwy o'r cyhoedd i fod yn bresennol.
- Cyflwyno slot pymtheng munud yn ystod y Cyngor Llawn i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd wneud cyflwyniad tri munud o'u dewis hwy.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Hyrwyddo Abertawe Agored a darparu llywodraeth leol dryloyw a hygyrch.
- Hybu Abertawe Gynhwysol lle mae pawb yn bwysig ac yn gallu elwa o'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o flaenoriaethau, prosiectau a gwasanaethau'r Cyngor drwy
  - ddarparu cefnogaeth gyfathrebu ragweithiol i brosiectau/raglenni allweddol y Cyngor drwy ddarparu adnoddau penodol i bob prosiect/rhaglen;
  - hysbysu buddiolwyr yn barhaus a darparu cyfleoedd adborth drwy gyfres o weithgareddau.
- Datblygu a rheoli adborth i sicrhau bod canlyniadau ymgynghori â defnyddwyr a staff yn bwydo i Amcanion a Chynlluniau Gwasanaethau.
- Hyrwyddo 'Democratiaeth' drwy bob agwedd ar gyflwyno gwaith ieuenctid.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Trefnu 3 neu 4 arolwg Lleisiau Abertawe y flwyddyn ac ymgynghori manwl drwy Banel Lleisiau Abertawe ddwywaith y flwyddyn.
- Cynyddu canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gwybod digon am y Cyngor i 80% erbyn 2007/08 a chanran y bobl sy'n dychwelyd ffurflenni cofrestru pleidleiswyr i 98% erbyn 2007/08.
- Cynyddu nifer y 'Grwpiau Pobl Ifanc' sy'n rhan o brosesau llunio penderfyniadau gan 10%.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol Dd – Cynllun Cymunedol

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Arwain datblygiad Cynllun Cymunedol cyffredinol i Abertawe gan ganolbwyntio ar gyflawni'r weledigaeth a rennir.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Drwy Bartneriaeth Gwell Abertawe I rydym ni wedi:
  - Hyrwyddo "Mae Uchelgais yn Hollbwysig" drwy ddosbarthu mwy na 1400 copi caled a thrwy www.Betterswansea.net.
  - Adolygu holl themâu'r cynllun cymunedol gyda'r partneriaethau perthnasol.
  - Cynnal y digwyddiad "Mae Pawb yn Bwysig" i ddatblygu Strategaeth Cynhwysiad Cymdeithasol.
  - Comisiynu Arfarniad Cynaladwyedd ar gyfer y Cynllun Cymunedol
  - Cysylltu â Chynghrair Abertawe Gwell drwy rannu gwybodaeth a'r digwyddiad "Ein Huchelgais 2".
- Croesawu digwyddiad "Mae Popeth yn Bwysig" lle anerchwyd y cynrychiolwyr gan Gyfarwyddwr Llywodraeth y DU dros Waith, Lles a Thlodi a fu'n canolbwyntio ar natur annerbyniol eithrio cymdeithasol.
- Mewn partneriaeth, cymryd rhan mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a chytuno ar y strategaeth.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Datblygu a gweithredu Partneriaeth Ddysgu Abertawe – Sgiliau Sylfaenol i Oedolion a'r Cynllun Dysgu Cymunedol.
- Gweithio gydag ysgolion a sefydliadau cymunedol eraill i ddarparu cyfleoedd Dysgu fel Teulu a darparu cyfleoedd dysgu i gefnogi polisïau economaidd a chymdeithasol cenedlaethol a lleol.
- Drwy Gynllun Gweithredu Partneriaeth Gwell Abertawe 2005-2020 rydym ni wedi nodi pum prosiect strategol:
  - Mae Uchelgais yn Hollbwysig: Cyflawni'r Weledigaeth drwy'r broses Gynllunio.
  - Cysylltiadau Gwell: strategaeth i integreiddio'r gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau allweddol yn well.
  - Mae Pawb yn Bwysig: Strategaeth cynhwysiad cymdeithasol i Abertawe.
  - Abertawe Gynaliadwy: Prosiect datblygiad cynaliadwy i Abertawe.
  - Compact gyda'r Sector Gwirfoddol: Cytundeb ar y cyd sy'n dangos sut mae'r sector gwirfoddol ac asiantaethau allweddol Abertawe'n gweithio gyda'i gilydd.
- Sicrhau bod lleisiau pobl ifanc Abertawe'n gallu cael eu clywed yn y broses Gynllunio.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Drwy'r Bartneriaeth Gwell Abertawe ynghyd â phartneriaethau Iechyd a Lles, Dysgu, Ffyniant, yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol, adolygu a diweddaru'r Cynllun Cymunedol yn flynyddol.
- Twf o 3% mewn rhaglenni bob blwyddyn – 5 ysgol uwchradd a 52 ysgol gynradd 2005-06 (840 myfyriwr dros gyfnod o 2 flynedd), 6 ysgol uwchradd a 55 ysgol gynradd erbyn 2009.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i Erthygl 12 byddwn yn cynnal digwyddiad ymgynghori gyda phobl ifanc ar themâu'r Cynllun Cymunedol.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol E – Adfywio Canol y Ddinas

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Cyflawni adfywiad Canol y Ddinas gan ddefnyddio ymagwedd hyblyg sy'n ymateb i'r farchnad.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru a Phartneriaeth Canol y Ddinas, comisiynu fframwaith strategol tymor hir a fydd yn gyrru adfywio a datblygiad Canol y Ddinas yn y dyfodol.
- Sicrhau bod Canol Dinas Abertawe yn parhau i ddringo ymhlith canolfannau siopa Prydain. Yn ôl y graddfeydd canolfannau adwerthu cenedlaethol a lunnir gan Experian ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, mae Abertawe wedi codi o safle 54 i safle 52.
- Lleihau nifer yr unedau a'r arwynebedd llawr gwag yng Nghanol y Ddinas a chynnydd o 6% mewn gwerthiannau adwerthu.
- Twf parhaus cynllun Shopmobility Abertawe sef y prysuraf o'i fath yng Nghymru.
- Cyflogi tîm Cymunedau'n Gyntaf, gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau bod pobl sy'n byw yn ward y Castell yn cael cyfle i gael llais yn adfywiad eu cymuned.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Trawsnewid Gorsaf Fysiau'r Cwadrant yn borth cyfoes a chroesawus i'r ddinas.
- Gweithredu'r Cynllun Cludiant Lleol mewn ymgynghoriad â phartneriaid gan gynnwys:
  - Cam 3 y Cysylltiad Bws Cyflym o Barcio a Theithio Glan-dŵr
  - Gosod contract ar gyfer cynllun Parcio a Theithio Ffordd Fabian
  - Bwrw ymlaen â threfniadau Ymholiad Cyhoeddus ar gyfer Datblygiad Gorsaf Fysiau'r Cwadrant.
- Adfywio Canol y Ddinas drwy bartneriaethau:
  - Paratoi a gweithredu fframwaith adfywio strategol ar gyfer Canol y Ddinas.
  - Cynhyrchu a monitro gweithrediad Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas 2005-2006 drwy Bartneriaeth Canol y Ddinas.
  - Ffurfioli partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf y Castell i sicrhau bod y gymuned leol yn rhan o adfywiad Canol y Ddinas.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cyflwyno Fframwaith Strategaeth erbyn Ebrill 2006 a chyhoeddi Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas 2005/06.
- Cryfhau safle Canol Dinas Abertawe yn ôl mesur Mynegai Hyfywedd Experian o fewn yr 50 uchaf erbyn 2007/08.
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu i Ddinas a Sir Abertawe i 3.47 miliwn erbyn 2007/08 a chynyddu'r arian a gaiff ei wario gan ymwelwyr i £202m erbyn 2007/08.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol F* – Prosiectau Datblygu Mawr

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Cyflwyno prosiectau datblygu mawr gan ddefnyddio ymagwedd flaenoriaethu gyda'n partneriaid strategol.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Bwrw ymlaen â stadiwm newydd y Morfa.
- Gyda'n partneriaid, rydym yn cyflwyno cam cyntaf prosiect adfywio SA1.
- Cwblhau cam cyntaf datblygiad Salubrious Place.
- Cwblhau cynllun adnewyddu sylweddol i adfer Constitution Hill i'w arddull Fictoraidd wreiddiol.
- Mabwysiadu methodoleg Rheoli Prosiectau sy'n cynnwys rheoli newid a chynnwys pecyn cymorth ymarferol ar gyfer pob prosiect.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Hyrwyddo a sicrhau cwblhau prosiectau mawr o fewn pedair thema'r Cynllun Adfywio ar y Cyd a nodi cynlluniau datblygu cynaliadwy ac ymarferol gan ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol i sicrhau buddsoddi a datblygu yn Abertawe.
- Hyrwyddo mewnfuddsoddi drwy ymagwedd bartneriaeth barhaus gyda datblygwyr drwy'r Tîm Ceisiadau Cynllunio Prosiectau Mawr.
- Gwella ansawdd y gwasanaeth Ceisiadau Cynllunio, a'i deilwra i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a hwyluso'r agenda ailddatblygu drwy wasanaeth ceisiadau effeithlon
- Ailagor y Ganolfan Hamdden yn dilyn adnewyddiad £25 miliwn a fydd yn cynnwys pwll newydd a gwell a chyfleusterau ffitrwydd a iechyd ac adleoli'r neuadd fowls dan do drws nesaf i'r ganolfan denis yn y Morfa, a fydd yn datblygu'n gyfleuster rhyngwladol.
- Trawsnewid Neuadd y Sir yn Ganolfan Ddinesig a fydd yn gartref i lyfrgell newydd a chaffis glan môr, gyda chyntedd i arddangos gweithiau celf i ategu'r arddangosfeydd yn Oriel Gelf Glynn Vivian.  Bydd yn cael ei hagor i'r cyhoedd fel canolfan ddiwylliannol fywiog yn y ddinas.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Penderfyniadau ar 40% o geisiadau cynllunio mawr o fewn 13 wythnos erbyn 4ydd chwarter 2005/06. Penderfyniadau ar 50% o geisiadau cynllunio mawr o fewn 13 wythnos erbyn 4ydd chwarter 2007/08.
- Archwilio ceisiadau Rheoli Adeiladu o fewn 15 niwrnod: 95% 2007/08.
- Canran y prosiectau a awdurdodwyd drwy gymeradwyo achos busnes : 100% erbyn 2007/08.
- Agor y Ganolfan Hamdden a adnewyddwyd erbyn diwedd 2007.
- Agor y Ganolfan Ddinesig newydd yn Neuadd y Sir erbyn 2007.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol Ff – Adfywio Cymunedol

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Arwain adfywiad cymunedau lleol yn Abertawe.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Parhau i weinyddu Gwobrau Adfywio Cymunedol yr Arglwydd Faer, sydd bellach, yn eu pedwaredd flwyddyn, yn dathlu pobl leol, sefydliadau gwirfoddol a busnesau sy'n cyflawni rôl hanfodol yn ein cymunedau.
- Troi £4 miliwn o'r Gronfa Adfywio Ddur yn fuddsoddiad £12 miliwn yn ardal Gorseinon, a chyhoeddi'r Llawlyfr arobryn Tref Gorseinon.
- Gweithio gyda chymuned Bonymaen i wella iechyd lleol, gan gynnwys sefydlu cynllun ffrwythau a llysiau cydweithredol.
- Parhau i gefnogi prosiectau adfywio cymunedol yn Wardiau Penderi, Fforesthall, Bonymaen, Gorseinon, yr Hafod, y Castell a Mayhill i sicrhau bod holl gymunedau Abertawe'n cyrraedd eu potensial llawn.
- Darparu 1116 o leoedd hyfforddi i oedolion mewn gwaith ieuenctid cydnabyddedig a hyfforddiant sgiliau cysylltiedig â gwaith ieuenctid.
- Cais CGE llwyddiannus am arian Amcan Un i ddatblygu a chyflwyno rhaglen "Llwybrau Hyfforddi" i adeiladu gallu oedolion a phobl ifanc (16 i 24 oed) i weithio'n ddiogel ac yn fwy effeithiol gyda phobl ifanc yn eu cymunedau lleol.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Cwblhau Strategaeth Adfywio Cymunedau sy'n sail i'r strategaeth Adfywio Economaidd.
- Adolygu'r ymwneud presennol â phartneriaethau cymunedol, yn ddaearyddol ac o ran meysydd diddordeb.
- Gweithredu hyfforddiant Aelodau ym maes Adfywio Cymunedau.
- Gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau a'u cefnogi, gan sicrhau bod y bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cymunedau'n teimlo'n ddiogel.
- Cyflwyno rhaglen eang o hyfforddiant cydnabyddedig i weithwyr ieuenctid a hyfforddiant sgiliau cysylltiedig â gwaith ieuenctid i oedolion a phobl ifanc mewn cymunedau lleol.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cyhoeddi Strategaeth Adfywio Cymunedau erbyn Mawrth 2006.
- Drafftio a chwblhau adolygiad o bartneriaethau erbyn Rhagfyr 2005.
- Cwblhau adolygu'r defnydd o leoliadau cymunedol erbyn Mawrth 2007.
- Cynyddu nifer defnyddwyr canolfannau hamddena cymunedol i 517,000 erbyn 2007/08 a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid i 13,200 erbyn 2007/08.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol G – Adfywio Economaidd

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Hyrwyddo ffyniant cynyddol i Abertawe drwy strategaeth datblygu economaidd integredig.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Dechrau datblygu strategaeth adfywio economaidd integredig i Abertawe.
- Cynyddu nifer y busnesau sy'n dechrau gyda chymorth Canolfan Fusnes Abertawe a chynyddu'r rheiny sy'n dal i fasnachu ar ôl dwy flynedd.
- Gyda'n partneriaid, y WDA, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin, trefnu a chyllido wythnos Ddiwydiant Bae Abertawe.
- Mae Partneriaeth Marchnad Waith Ganolraddol Abertawe, wedi'i chydlynu gan Wasanaeth Hyfforddiant Cyflogaeth y cyngor, wedi sicrhau cyllid o £3.9m a fydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi pobl 16 i 64 oed yn Abertawe.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Cwblhau strategaeth adfywio economaidd integredig i Abertawe.
- Paratoi a gweithredu Cynllun Adfywio integredig ar y Cyd a chynllun buddsoddi 5 mlynedd i gefnogi'r strategaeth economaidd.
- Llunio a gweithredu strategaethau adfywio i ardaloedd penodol yn unol â phedair thema'r Cynllun Adfywio ar y Cyd, Adfywio Canol y Ddinas, Adfywio'r Glannau, Cyflogaeth Strategol a Chefnogi Cymunedau.
- Darparu safleoedd ac adeiladau cyflogi pellach a chyflwyno rhaglen grantiau gwella adeiladau i wella'r ardaloedd diwydiannol.
- Cyflwyno rhaglen cynyddu ymwybyddiaeth i hybu datblygu cynaliadwy.
- Cynyddu twf a datblygiad y gymuned fusnes frodorol drwy ddenu mewnfuddsoddiad, cynyddu cyfradd cychwyn busnesau a chefnogi busnesau sy'n bodoli eisoes.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cwblhau strategaethau datblygu ar gyfer: Bae Abertawe (erbyn Mawrth 2006), Felindre (erbyn Medi 2005), Parc Diwydiannol Gorllewin Abertawe (erbyn Rhagfyr 2005), Glanrafon (Riverside) (erbyn Mawrth 2006).
- Sicrhau mewnfuddsoddiad o £49m a 296 o swyddi ar gyfer 2005/06, a chytuno ar raglen waredu ar gyfer 2005 i 2009.
- Creu 200 o fusnesau newydd rhwng Ebrill 2005 a Mawrth 2006. Cynnig cefnogaeth fusnes gyffredinol a TG i 400 o fusnesau sydd eisoes yn bodoli bob blwyddyn.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ng* – Dyfodol Abertawe

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Hyrwyddo Abertawe'n fwy effeithiol drwy Ddyfodol Abertawe.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Sefydlu Dyfodol Abertawe Cyf, gyda'r datganiad cenhadaeth "Hyrwyddo Abertawe fel lle i fuddsoddi, a byw ynddo ac ymweld ag ef."
- Ymchwilio i fodelau amrywiol ar draws gweddill y DU er mwyn sefydlu'r cylch gwaith mwyaf priodol i'r cwmni.
- Dechrau ar ddatblygu brand Abertawe.
- Ymchwilio i'r ymwybyddiaeth a'r canfyddiadau am Abertawe.
- Hyrwyddo'r cysyniad o Ddyfodol Abertawe i fuddiolwyr allweddol ac ystod eang o grwpiau a sefydliadau ar draws y ddinas.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Cwblhau a lansio brand Abertawe.
- Datblygu strategaeth farchnata i Abertawe sy'n cysylltu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a wneir gan fuddiolwyr allweddol.
- Sefydlu grŵp marchnata i Abertawe i alluogi cydlyniad effeithiol a chyflwyno gweithgareddau hyrwyddo ar draws y ddinas.
- Sicrhau'r integreiddio tynnaf posib o ran Dyfodol Abertawe a marchnata, digwyddiadau a gweithgaredd hyrwyddo o eiddo'r Cyngor.
- Sicrhau hyrwyddo Abertawe'n effeithiol, gan gynnwys cefnogi datblygu economaidd, prosiectau mawr ac adfywio.
- Datblygu cysylltiadau effeithiol ar draws y Ddinas
- Cwblhau diffinio trefniadau llywodraethu ar gyfer Dyfodol Abertawe.
- Ehangu Bwrdd Dyfodol Abertawe i sicrhau cynrychiolaeth partneriaid allweddol, sefydliadau a sectorau busnes.
- Lansio Dyfodol Abertawe'n ffurfiol.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Lansio Brand Abertawe yn 2005.
- Cwblhau'r strategaeth farchnata i Abertawe.
- Cwblhau mapio'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n gweithredu yn y Ddinas erbyn Gorffennaf 2005.
- Adolygu cyfleoedd i gyfathrebu â chynulleidfaoedd gwahanol ar draws Abertawe a datblygu strategaeth gyfathrebu.
- Paratoi cynllun busnes erbyn Medi 2005.
- Lansio sefydliad Dyfodol Abertawe yn ffurfiol yn 2005.
- Sicrhau arian digonol ar gyfer Dyfodol Abertawe o ffynonellau sector cyhoeddus a phreifat eraill i alluogi'r cwmni i gyflwyno'i strategaeth yn effeithiol.
- Gweithredu gweithgareddau, cyfleusterau a digwyddiadau marchnata a hyrwyddo yn unol â'r cynllun busnes a'r strategaeth farchnata.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol H – Gwasanaeth@Abertawe

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Trawsnewid y gallu i hygyrchu gwasanaethau drwy gynllun Gwasanaeth@Abertawe.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Cyhoeddi ein cynigydd dewisol, Capgemini, i weithio mewn partneriaeth gyda ni i gyflwyno'r rhaglen eLywodraeth fwyaf o'i bath yng Nghymru, sydd hefyd yn cynnwys Gwasanaeth@Abertawe.
- Dechrau ar ddyluniad atebion manwl, neu lasbrint, gyda'n cynigydd dewisol, sy'n cynnwys holl agweddau'r rhaglen eLywodraeth, gan gynnwys Gwasanaeth@Abertawe.
- Dechrau rhaglen Ail-lunio Prosesau Busnes i alluogi trosglwyddo'r cyswllt cwsmeriaid ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor i Gwasanaeth@Abertawe.
- Cyhoeddi cynlluniau ar gyfer canolfan cyswllt cwsmeriaid newydd yn Neuadd y Sir i gysylltu â Llyfrgell Ganolog newydd, arddangosiadau celf a gwegaffi.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Datblygu Gwasanaeth@Abertawe, gan gynnwys:
  - Gweithredu canolfan alwadau gorfforaethol
  - Agor canolfan gyswllt canol y ddinas fel rhan o'r Ganolfan Ddinesig newydd.
  - Lansio gwasanaeth rhyngrwyd cwbl ryngweithiol
  - Gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid a chynyddu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid
  - Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau ac arbed arian i'w ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Sicrhau y gellir e-alluogi 90% o'r ymholiadau ar-lein erbyn 2008.
- O ran canolfan gyswllt canol y ddinas, 70% o'r ymholiadau i'w datrys yn ystod yr ymweliad cyntaf erbyn Rhagfyr 2008.
- Dylai 85% o'r ymwelwyr â'r ganolfan gyswllt gael eu gweld o fewn 15 munud erbyn Ebrill 2008.
- Dylai 80% o alwadau'r ganolfan alwadau gael eu datrys ar yr alwad gyntaf erbyn Ebrill 2008.
- Ateb 85% o'r galwadau ffôn i'r ganolfan alwadau o fewn 15 eiliad erbyn Ebrill 2008.
- Cynyddu canran y cwsmeriaid sy'n fodlon ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaeth@Abertawe i 80% erbyn 2008

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol I* – Perfformiad Ysgolion

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gwella perfformiad ysgolion.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Cyhoeddi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol addysg yn Abertawe. Erbyn 2020, ein nod yw bod yr holl ysgolion yn sefydliadau dysgu cynhwysol sy’n annog eu disgyblion i gyrraedd eu potensial. Byddai’r holl ysgolion wedi cyrraedd safle’r 50% uchaf o ran ysgolion tebyg.
- Parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i 92.16% a 90% yn eu tro.
- Gwella’r canran o ddisgyblion 15/16 oed sy’n cyflawni’r “dangosydd pynciau craidd” i 37.3%
- Cynyddu canran y disgyblion 14 oed sy’n cyrraedd lefel 5 neu’n uwch ym mhrofion Cyfnod Allweddol 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

## *Yr hyn rydym ni’n bwriadu ei wneud:*

- Adolygu’r Cynllun Addysg Strategol presennol a blaengynllunio ar gyfer 2006/7 o ran gofynion Cynulliad Cymru
- Parhau i ddatblygu Cytundeb Partneriaeth yr AALl/Ysgolion erbyn mis Medi 2006 yn unol â Deddf Addysg 2002
- Monitro’r Strategaeth Cefnogi ac Ymyrryd yn yr Ysgol.
- Cynhyrchu a gweithredu’r Cynllun Cefnogi Ymddygiad.
- Cynyddu ymhellach ganran y disgyblion 15/16 oed sy’n cyflawni’r “dangosydd pynciau craidd” i 41% erbyn 2007/08.
- Cynyddu’r sgôr pwyntiau gyfartalog o ran cymwysterau allanol i ddisgyblion 16 oed mewn lleoliadau dysgu a gynhelir gan yr awdurdod lleol i 40 yn 2005/06 a 42 yn 2007/08.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Cynyddu Presenoldeb Ysgolion Cynradd i 93.4% erbyn 2007/08.
- Cynyddu Presenoldeb Ysgolion Uwchradd i 90.5% erbyn 2007/08.
- Gostwng y Gwaharddiadau Parhaol mewn Ysgolion Cynradd i 0.20 y 1000 erbyn 2007/08.
- Gostwng y Gwaharddiadau Parhaol mewn Ysgolion Uwchradd i 0.97 y 1000 erbyn 2007/08.
- Gostwng canran y disgyblion 15/16 oed sy’n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig i 3.1% erbyn 2007/08.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol L –* Darparu Ysgolion

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Adolygu'r ddarpariaeth gyffredinol o ysgolion.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Mesur a chynllunio Gwasanaeth TGCh newydd ar gyfer Dysgu
- Creu Gwasanaeth Cefnogi TGCh i Abertawe'n unig
- Rhwyd Gweinyddu Ysgolion a Chwricwlwm unedig.
- Cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus eang o ran materion a nodwyd yn ein dogfen ymgynghori "Abertawe Gwell: Ysgolion ar gyfer y Dyfodol"
- Rhoi cronfeydd ychwanegol o £1.4miliwn i ysgolion i gyflogi mwy o athrawon a gostwng nifer y disgyblion ymhob dosbarth. O ganlyniad ceir 1% yn unig o ddosbarthiadau plant pedair i saith oed a 3.7% o ddosbarthiadau plant saith i un ar ddeg oed lle mae mwy na 30 o blant.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Buddsoddi dros £8 miliwn mewn addysg yn 2005, a 30% arall i gefnogi plant ag anghenion arbennig.
- Bydd adeiladau a thiroedd ysgolion yn derbyn mwy na £30 miliwn yn ystod y pedair blynedd nesaf
- Gweithredu'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion i sicrhau bod argaeledd y lleoedd mewn ysgolion yn adlewyrchu'r angen yn well, o ran niferoedd a lleoliad daearyddol
- Datblygu cynlluniau rheoli asedau i flaenoriaethu'r arian cyfalaf sydd ar gael a sicrhau'n raddol fod yr holl ysgolion yn 'addas i'r diben'
- Ehangu a gwella ansawdd yr addysg sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Gwrthdroi'r duedd o leoedd gwag sy'n cynyddu, gan weithio fesul cam tuag at ddileu 600 o leoedd cynradd a 1000 o leoedd uwchradd Saesneg erbyn 2007/08.
- Canran y dosbarthiadau ysgolion cynradd lle ceir mwy na 30 o ddisgyblion.
- Cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg i 3807 erbyn 2007/08.
- Cynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a chwblhau arolygon blynyddol at ddibenion adborth.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ll* – Yr Henoed a'r Anabl

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Cefnogi'r henoed a'r anabl i fyw bywydau annibynnol.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Cyhoeddi cynllun ar gyfer pentref ymddeol yn Hazel Court yn Sgeti.
- Cytuno ar gontract newydd ar gyfer y Gwasanaeth Prydau Bwyd.
- Gyda'n partneriaid, cychwyn y rhaglen "Dechrau Bywyd@50+".
- Datblygu a chreu'r Uned Adsefydlu Preswyl (RRU) a'r cynlluniau Galluogi Ymatebol a Gofal Gartref (Reach) sy'n ceisio helpu pobl hŷn i gadw'u hannibyniaeth.
- Sicrhau arian o Ewrop i helpu i adeiladu Canolfan Adnoddau Bro Tawe (Tre-gof) gwerth miliynau o bunnau a fydd o fudd i oedolion â nam corfforol a nam ar y synhwyrau o 18 i 65 oed.
- Parhau i ddatblygu gwaith Tŷ TOPIC (Canolfan Wybodaeth i'r Henoed) ym Mayhill. Enillodd Tŷ TOPIC Wobr Genedlaethol BURA am ei waith ym mis Rhagfyr 2004.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Paratoi'r gynghrair iechyd i chwarae rôl allweddol yn natblygiad y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles o fewn Fframwaith y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gan gynnwys trefnu digwyddiadau hybu iechyd "cymunedol" yn flynyddol er mwyn cynorthwyo aelodau hŷn ein cymdeithas yn arbennig.
- Gwella gallu gwasanaethau i gefnogi'r henoed sy'n byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy ddatblygu strategaeth hir dymor ar gyfer Gwasanaethau i'r Henoed mewn partneriaeth â'r BILl.
- Cynyddu gallu'r gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc ag anabledd corfforol sy'n byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Datblygu a gweithredu'r prosiectau allweddol sy'n codi o ganlyniad i'r Strategaeth 50+.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- O ran y gynghrair iechyd, darparu o leiaf dwy ymgyrch gymunedol y flwyddyn.
- Cynnal y gyfradd o bobl hŷn 65 oed a throsodd sy'n cael help i fyw gartref fesul 1000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd ar 131.58.
- Cynyddu nifer y bobl 65 oed a throsodd y mae'r awdurdod yn eu cynnal mewn gofal preswyl fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd i'r chwartel uchaf erbyn 2007/08.
- Lleihau cyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol fesul 1000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd i 14 erbyn 2007/08.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol M –* Tai

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gweithio tuag at wella'r holl stoc tai cymdeithasol.*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Cyhoeddi cynlluniau i holi barn tenantiaid tai cyngor Abertawe ar gynlluniau i greu Menter Dai Gydfuddiannol ac o ganlyniad buddsoddi £340 miliwn i wella 14,000 o gartrefi dros y 10 mlynedd nesaf.
- Agor y ganolfan Atgyweiriadau newydd sydd ar gael 12 awr y dydd.
- Parhau â'r cynllun i osod larymau mwg gwifrau caled trydan prif gyflenwad ymhob tŷ cyngor.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud*

- Gwella'r gwasanaeth atgyweiriadau ymatebol i denantiaid heb gost ychwanegol i'r Cyngor.
- Gweithio i sicrhau bod yr holl dai Cyngor yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012.
- Parhau gyda'r gwaith angenrheidiol o holi barn tenantiaid ynghylch sefydlu Menter Dai Gydfuddiannol.
- Darparu arweinyddiaeth strategol glir i'r holl bartneriaid i sicrhau cyflenwad addas o gartrefi fforddiadwy o safon
- Arwain a hyrwyddo gwella cyflwr tai yn y sector preifat.
  - Cwblhau cerrig milltir ar gyfer cynllun Adnewyddu'r Hafod.
  - Sicrhau cyflwyno effeithiol o ran grantiau'r sector preifat a rhaglen addasiadau, gan gynnwys gwell bodlonrwydd cwsmeriaid
  - Targedu adnoddau grantiau at daclo anaddasrwydd a helpu pobl hŷn, anabl a hawdd eu niweidio i barhau i fyw gartref yn annibynnol.
- Mynd i'r afael ag anghenion tai pobl hawdd eu niweidio (h.y. y digartref, ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches, pobl anabl, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig)

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Holi barn yr holl denantiaid ynghylch y Fenter Dai Gydfuddiannol erbyn Gorffennaf 2006.
- Bodlonrwydd tenantiaid ar y gwasanaeth atgyweirio 90% erbyn 2008
- Canran yr atgyweiriadau a gwblhawyd o fewn yr amser targed: a) categori argyfwng 99% 2006-09; b) categori brys 96% erbyn 2007/08.
- Amser cyfartalog i gwblhau atgyweiriadau ymatebol heblaw rhai brys – 22 diwrnod erbyn 2007/08.
- Canran y tai sector preifat lle mae gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol wedi arwain at:
  a) adnewyddu neu ddymchwel tai anaddas: 0.080 erbyn 2007/08.
  b) deiliaid yn dychwelyd yn ystod 2007/8: 0.0233

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol N* – Rheoli Gwastraff

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Datblygu a gweithredu strategaeth rheoli a lleihau gwastraff.*

## *Yr hyn a waned gennym:*

- Rhoi Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ar waith.
- Parhau i ragori ar dargedau'r Cynulliad Cenedlaethol o ran ailgylchu, a hefyd cefnogi Cynllun Ymwybyddiaeth Cymru sy'n hyrwyddo arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yn y gymuned.
- Dewis partner i ailgylchu'r holl bapur (sydd ar hyn o bryd yn cyrraedd 6,000 tunnell y flwyddyn) am y pedair blynedd nesaf.
- Sicrhau bod y 110,000 aelwyd yn Abertawe bellach yn gallu hygyrchu casgliad ar wahân ar gyfer papur, gwydr a chaniau, sy'n cael eu casglu ar yr un diwrnod â'r sbwriel.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Sicrhau proses gaffael effeithiol ar gyfer y prosiect rheoli gwastraff strategol.
- Darparu strategaeth ddinesig gynaliadwy i fodloni gofynion statudol ac anstatudol gan gynnwys:
  - Caffael er mwyn darparu proses trin gwastraff gweddillol
  - Bodloni'r targedau statudol ar gyfer gwaredu gwastraff dinesig i safle tirlenwi.
  - Darparu a gwella trefniadau ailgylchu i ddinasyddion ac ymwelwyr ag Abertawe.
  - Cynyddu swm y gwydr/papur a ailgylchir a chynyddu faint o wydr sy'n cael ei ailgylchu drwy wasanaethau Gwastraff Masnachol.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Cyrraedd targedau Lwfans Tirlenwi ar gyfer 2005 – 2009 yn unol â thargedau LICC.
- Cyflwyno arbrawf ailgylchu “gwastraff gwyrdd” i 34,000 o aelwydydd erbyn diwedd 2005.
- Cynyddu % cyfanswm yr hyn a ailgylchir 5% yn flynyddol o linell sylfaen 2003/4.
- Cynyddu'r gwydr a ailgylchir drwy wasanaethau Gwastraff Masnach 2% yn flynyddol o linell sylfaen 2003/4
- Cynyddu canran y gwastraff dinesig:
  a) a ailgylchwyd neu a ailddefnyddiwyd – i 22% erbyn 2007/08
  b) gwaddod llosgwyr, gwastraff glanhau traethau, rwbel a cherbydau a adawyd wedi'u hailgylchu - 65%
  c) wedi'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall – 10% erbyn 2007/08 a lleihau:
  ch) tirlenwi – 70% erbyn 2007/08

# Blaenoriaeth Gorfforaethol O – Cludiant

**Blaenoriaeth Gorfforol:** *Datblygu a gweithredu rhaglen gludiant integredig ar gyfer Abertawe.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Dan Gynllun Cludiant Abertawe, cwblhau cyfnewidfa bysiau a threnau'r Stryd Fawr.
- Cwblhau cysylltiad Clydach.
- Sicrhau £4 miliwn gan Gynulliad Cymru a fydd yn helpu i gyllido sawl cynllun gan gynnwys llwybr bysiau cyflym o'r safleoedd parcio a theithio i ganol y ddinas, ailddatblygu Gorsaf Fysiau'r Cwadrant, bysiau cyhoeddus newydd i Mawr a llwybrau diogel i'r ysgol yng Ngellifedw.
- O flaen yr amserlen, cwblhau symud yr hen bont reilffordd a groesai Ffordd Fabian gan ganiatáu dechrau'r gwaith ar adeiladu pont newydd danlli a fydd yn darparu llwybr uniongyrchol i'r ddinas o'r gwasanaethu parcio a theithio, a llwybr beicio a llwybr cerdded.
- Cyhoeddi prosiect i fuddsoddi £400,000 i adfer pont dros afon Tawe a fydd yn bont i feicwyr a cherddwyr ac yn rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Gweithredu'r Cynllun Cludiant Lleol mewn ymgynghoriad â phartneriaid gan gynnwys:
  - Cam 3 y Cysylltiad Bws Cyflym o Barcio a Theithio Glan-dŵr,
  - Bwrw ymlaen â phrynu safle Parcio a Theithio Heol Caerfyrddin,
  - Bwrw ymlaen â threfniadau ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer ailddatblygu Gorsaf Fysiau'r Cwadrant.
- Paratoi, datblygu a gweithredu rhaglen ragweithiol i hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd a pharatoi a gweithredu cynlluniau Llwybrau Diogel i'r Ysgol.
- Gweithredu Strategaeth Barcio ar gyfer Canol y Ddinas.
- Gwella'r isadeiledd gwybodaeth i wella Ansawdd Aer o ran cerbydau'n defnyddio ffyrdd pwysicaf Abertawe a'r prif briffyrdd.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Nod o gael 136,000 o deithwyr yn defnyddio Parcio a Theithio erbyn 2008
- 1681 mwy o ddisgyblion yn seiclo neu'n cerdded i'r ysgol erbyn 2007/08.
- Canran y cydymffurfio â thargedau cenedlaethol ar gyfer y llygrwyr allweddol.
- Cyflwr
  a) y prif ffyrdd – 15% erbyn 2007/08
  b) ffyrdd llai pwysig – 18% erbyn 2007/08

# Blaenoriaeth Gorfforaethol P – Troseddu

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Llwyddo i leihau lefelau troseddu gyda'n partneriaid.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Helpu i leihau troseddu'n gyffredinol o tua 20% er 2003/04
- Darparu mwy o Feysydd Parcio Diogel hyd at gyfanswm o 12
- Datblygu Arfer Gorau Cenedlaethol mewn cynlluniau i leihau troseddu treisgar.
- Lansio ymgyrch "Pwy sy'n mynd â chi adref" wedi'i hanelu at y cyhoedd er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o beryglon defnyddio tacsis didrwydded.
- Mabwysiadu ymagwedd gadarn tuag at adroddiadau am graffiti hiliol o gwmpas y ddinas. Mae'r tîm dileu graffiti arobryn bellach yn sicrhau bod graffiti o'r fath yn cael ei ddileu o fewn 24 awr o'i riportio.
- Lleihau achosion o Niwsans Pobl Ifanc yng Nglan-dŵr, Gorseinon a Chraigfelen drwy weithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac asiantaethau eraill.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Lleihau troseddu 27.5% erbyn 2008, gan gynnwys targedau penodol i leihau troseddau ceir, byrgleriaeth a thrais.
- Gwella perfformiad y Cyngor wrth gynyddu diogelwch cymunedol ymhellach yn unol ag Adran 17 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998.
- Gweithredu Strategaeth Barcio ar gyfer Canol y Ddinas gan gynnwys ystyried cyflwyno parcio wedi'i ddad-droseddoli.
- Gan gweithio gyda'n partneriaid, bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gostwng lefelau troseddau ieuenctid yn Abertawe.
- Gwella safonau cyfleusterau tacsis a cherbydau hurio preifat a'r mesurau rheoli, gan gynnwys cyflwyno platiau adnabod a bathodynnau newydd ar gyfer pob cerbyd a gyrrwr.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cyflwyno platiau a bathodynnau adnabod newydd ar gyfer pob cerbyd a gyrrwr rhwng Mai 05 a Mai 06.
- Mesur y gostyngiad mewn troseddu yn erbyn llinell sylfaen 2003/04. Cwblhau arolwg i fesur lefel ofn troseddau.
- Cynyddu canran y trigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n "weddol ddiogel" neu'n "ddiogel iawn" wedi iddi dywyllu:
  a) yn eu cymdogaethau eu hunain
  b) yng Nghanol y Ddinas
- Gostwng lefel troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o leiaf 5% bob blwyddyn.
- Gostwng troseddu sy'n ymwneud â cherbydau 50% dros y 5 mlynedd 2001-2006
- Gostwng byrgleriaeth o dai 5% bob blwyddyn.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol Ph – Perfformiad.Gorau2008

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Parhau i wella'n rheoli integredig, corfforaethol, perfformiad ac ariannol gan ganolbwyntio ar Perfformiad.Gorau2008.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Cyflwyno Cynlluniau Unedau Gwasanaeth a Chynlluniau Gwella Gwasanaethau ledled y gorfforaeth gan gysylltu amcanion y gwasanaeth ag amcanion corfforaethol.
- Cytuno, cyhoeddi a dilyn cylchoedd cynllunio blynyddol ar gyfer Cynllunio Perfformiad a Gwasanaeth, Cynllunio Ariannol a Chynllunio Prosiectau er mwyn cyflwyno ymagwedd integredig.
- Parhau â'r Cyfarfodydd Monitro Perfformiad a Monitro Ariannol misol i amlygu meysydd pryder a gweithredu'n briodol. Mae'r holl eitemau a nodwyd fel rhai lle mae angen "mesurau arbennig" wedi gwella yn ystod y flwyddyn.
- Prynu Datrysiad Rheoli Perfformiad Busnes a fydd yn helpu cydlynu a chyflwyno data i wasanaethau er mwyn bwydo'i benderfyniadau busnes.
- Parhau i weithredu'r rhaglen Adolygu Cyllideb i ddileu aneffeithiolrwydd a sicrhau arbedion i'w cyfeirio at feysydd blaenoriaeth.
- Adolygu'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol i sicrhau eu bod yn parhau'n ddilys, yn fforddiadwy ac yn berthnasol.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Datblygu a rheoli fframwaith cynllunio, rheoli ac adnoddau ariannol, gan gynnwys
- Cyflawni rhaglen Perfformiad.Gorau@Abertawe 2008 a sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni perfformiad chwartel uchaf erbyn 2008.
- Datblygu, adolygu a monitro polisïau corfforaethol sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad a holl faterion Cydraddoldeb Mynediad.
- Datblygu protocolau Rheoli Risg gyda'r Gwasanaethau Ariannol a rheoli'r defnydd ohonynt er mwyn nodi Blaenoriaethau Gwasanaeth a chryfhau WPI.
- Datblygu a chefnogi partneriaethau gyda sefydliadau eraill yn rhagweithiol fel bod adnoddau cyfunol yn cael eu defnyddio'n effeithiol er lles Abertawe.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb - Chwefror 20066
- Adroddiadau i gyfarfodydd misol MPA ac adroddiadau chwarterol i'r Cabinet a'r Byrddau Adolygu Perfformiad.
- Monitro derbynebau grantiau DASA yn erbyn Cynghorau/cyrff cymharol eraill
- 75% o'r dangosyddion statudol yn y chwartel uchaf erbyn 2007/08
- 90% o'r dangosyddion yn dangos gwelliant erbyn 2007/08
- Cywirdeb 95% erbyn diwedd 2007/08
- Dadansoddiad risg corfforaethol i'w gytuno gan y TRhC a'r Cabinet erbyn Mai 2005.
- Cynyddu canran yr anfonebau diddadl a dalwyd o fewn 30 diwrnod i 88% erbyn 2007/08

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol R –* Rheoli Asedau

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Sicrhau rheolaeth effeithiol ar asedau, yn gorfforaethol ac yn strategol (Cynllun Rheoli Asedau).*

## *Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:*

- Llunio a gweithredu'r ail Gynllun Rheoli Asedau blynyddol ar gyfer Asedau Eiddo sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2005-06.
- Mae'r Uned Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol wedi sefydlu Tîm Rheoli Asedau sy'n atebol i'r Rheolwr Strategol Corfforaethol.
- Cyhoeddi Rhaglen Rheoli Asedau Priffyrdd 5 mlynedd (y gyntaf o'i bath yng Nghymru) a fydd yn buddsoddi £10m i gynnal a chadw 200km o heolydd a phalmentydd yn Abertawe.

## *Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:*

- Bydd y Tîm Rheoli Asedau:
  - yn cydlynu ac yn ymgymryd â gwaith sylweddol o ran rheoli data ar gyfer y broses o reoli asedau.
  - yn nodi cyfleoedd newydd ar gyfer lleihau costau a gwella cyfleoedd refeniw a chyfalaf.
  - yn rheoli'r rhaglen waredu gyfalaf, gan gefnogi'r rhaglen gyfalaf gyffredinol ar gyfer yr Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf.
- Er mwyn gwella'r mynediad corfforol i wasanaethau'r Cyngor, byddwn yn ymgynghori â'n cwsmeriaid drwy sefydlu fforwm i drafod y maes hwn.
- Dechrau'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r Ganolfan Ddinesig newydd a fydd yn cynnwys canolfan alwadau a chyswllt newydd.
- Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd gweithrediadol tir ac adeiladau o eiddo'r Cyngor. Y cam cyntaf fydd cwblhau adolygiad o'r eiddo mewn ardal beilot, a dewiswyd Gorseinon ar gyfer hyn.
- Cwblhau adolygiad o holl storfannau'r cyngor o ran y tir y maent wedi'u lleoli arno er mwyn rhyddhau tir a allai fod yn werthfawr.
- Datblygu ymhellach y cynllun busnes a'r model ariannol ar gyfer y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion.

## *Sut byddwn yn mesur cynnydd:*

- Canran adeiladau'r Awdurdod sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl.
- Gollyngiadau $CO^2$ o adeiladau annomestig y Cyngor.
- Cyflwr corfforol y portffolio: % ym mandiau A, B, C neu D.
- Cwblhau'r Ganolfan Ddinesig erbyn 2007.

# Blaenoriaeth Gorfforaethol Rh – Datblygu'r Gweithlu

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gwella gallu ac effeithlonrwydd ein gweithlu drwy arferion gweithio cyfoes, rheoli prosiectau'n well, buddsoddi mewn technoleg a Buddsoddwyr mewn Pobl.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Mabwysiadu methodoleg Rheoli Prosiectau gan gynnwys rheoli newid a phecynnau cymorth ymarferol ar gyfer yr holl brosiectau.
- Cyhoeddi "Pobl@Abertawe", sef y Strategaeth Adnoddau Dynol newydd sy'n amlinellu blaenoriaethau'r awdurdod ym meysydd allweddol Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaeth.
- Parhau â'r ymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo Gwobrau Rhagoriaeth Gwasanaeth newydd y llynedd sy'n cydnabod rhagoriaeth staff o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, rheoli perfformiad a gwaith tîm.
- Cyhoeddi ein cynigydd dewisol, Capgemini, i weithio mewn partneriaeth gyda ni i gyflwyno'r rhaglen eLywodraeth fwyaf o'i bath yng Nghymru, sydd hefyd yn cynnwys Gwasanaeth@Abertawe.
- Rydym ni wedi cyflwyno'r Cynllun Arfarnu Corfforaethol i 70% o'r gweithwyr.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Cyflwyno a pharhau i ddatblygu dulliau a sgiliau Rheoli Prosiectau.
- Rhoi Pobl@Abertawe ar waith.
- Sicrhau bod 90% o'r staff yn cael arfarniad perfformiad blynyddol a chynlluniau datblygiad personol.
- Llunio, gweithredu ac adolygu ystod o ymyriadau DT gyda'r nod o gynyddu gallu rheoli a gweithio corfforaethol.
- Gyda'n cynigydd dewisol, Capgemini, cyflwyno ein rhaglen eLywodraeth.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Cyflawni hyfforddiant addas ar gyfer 95% o holl Aelodau cymwys y Cyngor.
- Ceisio cyflawni BMP gan y sefydliad cyfan erbyn 2007/08.
- Gostwng canran y trosiant gweithwyr 10% erbyn 2007/08
- Gostwng nifer y diwrnodau gwaith /shifftiau cyfwerth amser llawn a gollir oherwydd absenoldeb salwch i 8.8 niwrnod erbyn 2007/08
- Gostwng nifer yr ymddeoliadau oherwydd salwch fel canran o'r gweithlu cyfan i 0.20% erbyn 2007/08

# Blaenoriaeth Gorfforaethol S – Gwell Effeithlonrwydd

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** *Gwella effeithlonrwydd y Cyngor drwy brosesau busnes gwell, rhesymoli gwasanaethau a buddsoddi mewn systemau TG "swyddfa gefn" corfforaethol newydd.*

## Yr hyn rydym ni wedi ei wneud:

- Cyhoeddi ein cynigydd dewisol, Capgemini, i weithio mewn partneriaeth gyda ni i gyflwyno'r rhaglen eLywodraeth fwyaf o'i bath yng Nghymru, sydd hefyd yn cynnwys Gwasanaeth@Abertawe.
- Dechrau ar ddyluniad atebion manwl, neu lasbrint, gyda'n cynigydd dewisol, sy'n cynnwys holl agweddau'r rhaglen eLywodraeth, gan gynnwys Gwasanaeth@Abertawe.

## Yr hyn rydym ni'n bwriadu ei wneud:

- Datblygu Gwasanaeth@Abertawe gan gynnwys:
  - Gweithredu canolfan alwadau gorfforaethol
  - Agor canolfan gyswllt yng nghanol y ddinas
  - Lansio gwasanaeth rhyngrwyd cwbl ryngweithiol
- Ateb ymholiadau cwsmeriaid yn y pwynt cyswllt cyntaf, a chynyddu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid.
- Gweithredu System TGCh integredig newydd i redeg Cyllid, AD, a Gwasanaethau'r Gyflogres a Chaffael.
- Ymgymryd ag ail-lunio Prosesau Busnes gwasanaethau i wella effeithlonrwydd a chynhyrchu arbedion i'w buddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

## Sut byddwn yn mesur cynnydd:

- Sicrhau y gellir e-alluogi 90% o drafodion ar-lein erbyn 2008.
- O ran canolfan gyswllt canol y ddinas, 70% o'r ymholiadau i'w datrys yn ystod yr ymweliad cyntaf erbyn Rhagfyr 2008.
- Dylai 85% o'r ymwelwyr â'r ganolfan gyswllt gael eu gweld o fewn 15 munud erbyn Ebrill 2008.
- Dylai 80% o alwadau'r ganolfan alwadau gael eu datrys ar yr alwad gyntaf erbyn Ebrill 2008.
- Ateb 85% o'r galwadau ffôn i'r ganolfan alwadau o fewn 15 eiliad erbyn Ebrill 2008.

# Y Rhaglen eLywodraeth

Bydd y blynyddoedd nesaf yn gyfnod o newid mawr i Gyngor Dinas a Sir Abertawe. O ganlyniad bydd gwelliant cyffredinol yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu. Drwy wella a symleiddio'n ffyrdd o weithredu gallwn sicrhau manteision sylweddol nid yn unig i'n staff ond hefyd i'n cwsmeriaid, ein hymwelwyr a'r gymuned fusnes yn Abertawe.

Y rhaglen newid hon yw'r fwyaf uchelgeisiol y mae'r Cyngor wedi ymgymryd â hi erioed. Ni fydd yn daith hawdd a byddwn yn wynebu sawl her ar y ffordd. Bydd y rhaglen hon nid yn unig yn gyfle i osod Dinas a Sir Abertawe ymhlith Awdurdodau mwyaf blaengar y DU, ond bydd hefyd yn golygu y bydd ein Cyngor yn lle gwell i weithio ynddo ac yn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid. Fe'i gelwir yn **Rhaglen eLywodraeth.**

## Beth yw nodau'r rhaglen?

Nod y Rhaglen eLywodraeth fydd darparu:

- Mynediad Gwell e.e. oriau agor hwy, gwefan gwbl weithredol
- Lefelau gwasanaeth gwell e.e. bydd gwybodaeth a chyngor ar gael yn fwy hwylus, gellir olrhain ymholiadau, a chyflwynir gwasanaethau'n gynt.
- Effeithlonrwydd mwy a rhyddhau adnoddau i'w hail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

## Beth sy'n gyrru'r newid hwn

Mae pedwar ffactor allweddol sy'n gyrru'r Rhaglen eLywodraeth:

- Gofyniad gan y Llywodraeth – mae'n rhaid i ni wneud hyn – mae'r Llywodraeth wedi pennu targedau clir a heriol ar gyfer eLywodraeth y mae'n rhaid i ni eu bodloni. Er na fydd rhai o'r targedau hyn yn dod i rym ar hyn o bryd, rydym ni am fod yn barod.

- Mae'r byd yn symud yn ei flaen – mae'n rhaid i ni wella mynediad. Mae disgwyliadau gwahanol gan ein cwsmeriaid o'r hyn y maent yn eu gofyn gennym a'r ffyrdd y maent yn dymuno rhyngweithio â ni. Mae'n rhaid bod ein cwsmeriaid yn gallu cysylltu â ni'n hawdd. Er enghraifft, os yw rhywun yn symud i'r ardal dylai fod yn bosib iddynt wneud un alwad ffôn a chael ateb i'w holl ymholiadau, yn hytrach na gorfod cysylltu â sawl adran wahanol.

- Rydym yn dymuno parhau i fod ymhlith y Cynghorau blaenaf – mae'n rhaid i ni wella'n gwasanaethau. Mae gan gynghorau mwyaf blaengar y DU agendâu eLywodraeth clir eisoes ac maent wedi dangos gwerth systemau a phrosesau swyddfa flaen a swyddfa gefn newydd. Fodd bynnag, ni yw'r awdurdod cyntaf yn y DU i fynd i'r afael â hyn mewn un cynnig, ac o ganlyniad, byddwn mewn sefyllfa dda i fod ymhlith awdurdodau lleol mwyaf blaengar y DU.

- Y pwll cynyddol yn ein cyllideb - mae'n rhaid i ni wella effeithlonrwydd. Yn y dyfodol rydym ni'n debygol o wynebu galwadau cynyddol fwy tra bod ein cyllidebau'n lleihau. Mae'r bwlch rhwng yr hyn rydym ni'n ei gael gan y Cynulliad a'r lefel o wasanaethau y disgwylir inni eu darparu yn cynyddu. Gallwn fanteisio ar lawer o dechnoleg i'n helpu i wella effeithlonrwydd yn y Cyngor. Bydd y Rhaglen eLywodraeth yn esgor ar arbedion a fydd yn ein galluogi i gau'r bwlch hwn, heb orfod torri gwasanaethau rheng flaen na chodi treth y cyngor yn sylweddol.

Felly mae eLywodraeth yn ymwneud â gwella mynediad, darparu gwasanaethau gwell ac effeithlonrwydd gwell - nid yw gwneud dim yn opsiwn o gwbl.

## *Yr agweddau y bydd y Rhaglen eLywodraeth yn canolbwyntio arnynt*

Mae'r rhaglen eLywodraeth yn ymwneud â newid y ffordd rydym ni'n gweithio.

Bydd **Gwasanaeth@Abertawe** yn gwella'r ffordd rydym ni'n rheoli'r rhyngweithio rhwng ein holl "gwsmeriaid" o unigolion i fusnesau. Bydd yn sefydlu:

- Canolfan alwadau gyda mwy na 150 o Gynrychiolwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid, wedi'i lleoli yn Neuadd y Sir;
- Canolfan Gyswllt ("Siop dan yr Unto") lle gall cwsmeriaid siarad yn bersonol â staff y Cyngor ynghylch materion ac ymholiadau;
- Gwefan gwbl weithredol i alluogi cwsmeriaid i gwblhau busnes gyda ni 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Bydd **Adnoddau@Abertawe** yn canolbwyntio ar ailosod y systemau cefnogi swyddfa gefn allweddol:

- Adnoddau Dynol
- Cyflogres
- Cyllid
- Caffael

Bydd hyn yn esgor ar welliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd gweithrediadol ac ansawdd a chyfoesedd y wybodaeth sydd ar gael i reolwyr a staff.

Bydd **Rheoli Gwybodaeth** yn canolbwyntio ar:

- Y ffordd y mae dogfennau'n cael eu storio, eu rheoli a'u hanfon drwy'r sefydliad;
- Cynnwys gwefan Cyngor Abertawe; ac
- Adeiladu'r wybodaeth a'r fframwaith ar gyfer cronfa wybodaeth a fydd yn ystorfa ganolog ar gyfer gwybodaeth i gwsmeriaid ac yn offeryn allweddol i'r staff i'w cynorthwyo wrth wasanaethu cwsmeriaid

Bydd **Ail-lunio Prosesau Busnes (BPR)** yn ystyried sut rydym ni'n gwneud pethau ar hyn o bryd, sut gallwn wneud y prosesau hynny'n fwy effeithiol a mwy effeithlon, a sut gall technoleg gefnogi hynny. Bydd hyn yn gyfran sylweddol o'r Rhaglen.

## *Os gwella gwasanaethau yw'r nod – pa wahaniaethau bydd ein prif gwsmeriaid, sef y dinasyddion, yn eu gweld?*

Ein bwriad yw hwyluso'r broses i'r cwsmeriaid gael y gwasanaeth y maent yn ei ddymuno gennym. Mae hynny'n golygu sicrhau eu bod yn gallu dewis sut maent yn cysylltu â ni - drwy lythyr, yn bersonol, dros y ffôn, neu drwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd. Rydym ni'n gweithio tuag at gael un rhif i'w ffonio ar gyfer yr holl ymholiadau i'r Cyngor. Rydym ni'n mynd i gynllunio'r ffordd rydym ni'n cynnig ein gwasanaethau yn ôl dymuniadau'r cwsmer, er mwyn cyflawni cymaint â phosib mewn un alwad ffôn. Drwy fanteisio ar y dechnoleg, byddwn yn gallu cyflawni newid sylweddol yn y gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid yn ei dderbyn.

## *Sut bydd staff, rheolwyr ac aelodau'r Cyngor yn elwa o'r rhaglen*

Bydd gan **staff** fwy o amser i ganolbwyntio ar gyflwyno gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. Fe'u cefnogir gan wybodaeth a fydd yn haws ac yn gyflymach ei chyrchu a thrwy systemau a phrosesau a fydd yn gweithio ar eu rhan ac yn arbed dyblygu.

Bydd **rheolwyr** yn gallu llunio penderfyniadau mwy cyflym a mwy gwybodus gyda mynediad gwell i wybodaeth reoli; yr isadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) diweddaraf: system a fydd yn cefnogi rheolaeth ragweithiol ar staff a'u datblygiad; ac yn eu galluogi i yrru gwelliannau go iawn yn eu gwasanaeth.

Bydd **aelodau** yn fwy gwybodus, ac yn meddu ar y wybodaeth angenrheidiol i ddangos yr hyn y mae gan bobl ddiddordeb ynddo, beth sy'n eu poeni a pha wasanaethau y maent yn eu defnyddio. Bydd hyn yn eu galluogi i lunio penderfyniadau a fydd yn cyfrannu at gyfeiriad strategol y Cyngor.

## *Pryd bydd y rhaglen yn digwydd*

Bydd y Rhaglen yn para tua 10 mlynedd a bydd 3 cham penodol:

**Cam Dylunio** (sef yr hyn rydym ni'n ei wneud yn awr) – yn cadarnhau cyfeiriad cyffredinol y Rhaglen ac yn diffinio'r weledigaeth ynghylch beth fydd patrwm y Cyngor yn y dyfodol. Cychwynnodd y Cam Dylunio ddechrau Ionawr 2005 a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd yr haf.

**Cam Gweithredu** - o fis Medi 2005 tan ddiwedd 2008. Bydd y cyfnod hwn yn para tua thair blynedd a bydd yn ymwneud â rhoi ein dulliau newydd o weithio ar waith.

**Cam Gwella** – o fis Ebrill 2008 ymlaen. Bydd y cam hwn yn ymwneud â gwelliannau parhaus, gan adeiladu ar y Cam Gweithredu a chyflwyno'i fanteision.

Os hoffech fwy o fanylion, gallwch gyfeirio at y Cynllun Gwella cyflawn. Mae copïau ar gael yn y mannau canlynol:

**Derbynfa Neuadd y Sir**
**neu**
**Derbynfa Neuadd y Ddinas**

Neu gallwch weld y ddogfen ar-lein ar wefan y Cyngor:
**www.swansea.gov.uk**

## Sylwadau

Os oes gennych sylwadau neu ymholiadau ynghylch cynnwys y Cynllun Gwella hwn, ysgrifennwch at:

**Steve White**
**Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Strategol**
**Neuadd y Sir**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

Neu gallwch anfon eich sylwadau a'ch ymholiadau drwy e-bost i:
**Improvement@swansea.gov.uk**

I gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r canlynol:
**Elaine Bate – 01792 636638**